## Effeithlonrwydd adnoddau – rhestr wirio ar gyfer bargeinio:

- ✓ Gwnewch eich ymchwil – casglwch unrhyw ddata neu bolisïau perthnasol presennol ar wastraff, caffael ac ati, a'i adolygu. A yw'r cyflogwr yn cadw cofrestr gyfreithiol o'r holl reoliadau gwastraff/llygredd sy'n berthnasol i'w weithrediadau? Sut mae'r cyflogwr yn monitro ei weithgareddau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn?

- ✓ Os nad oes llawer o wybodaeth i'w rhannu, man cychwyn da yw cynnal archwiliad gwastraff ar y cyd â'r cyflogwr. Dyma ffordd dda o nodi meysydd i'w gwella ac arbedion cost posibl a all helpu i gyflwyno achos busnes dros weithredu yn ystod trafodaethau.

- ✓ Wrth gyflwyno'r achos dros weithredu, gwnewch yn siŵr bod cyflogwyr ac aelodau'n ymwybodol o'r cysylltiad rhwng gwastraff, allyriadau nwyon tŷ gwydr, llygredd a'r problemau a achosir gan or-echdynnu adnoddau cyfyngedig y blaned. Drwy reoli adnoddau'n well a lleihau gwastraff, gall hyn wneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau ôl troed carbon y sefydliad, yn ogystal â lleihau effeithiau amgylcheddol eraill.

- ✓ Sicrhewch fod cyflogwyr yn ymwybodol o'r rhan bwysig sydd gan undebau i'w chwarae o ran ymgysylltu ar y mater hwn. Yn aml, aelodau ar lawr gwlad sydd â'r ddealltwriaeth orau o'r rhwystrau ymarferol i leihau gwastraff a syniadau ar gyfer rheoli adnoddau'n well. A bydd yn hanfodol sicrhau eu cefnogaeth os bydd mentrau newydd am lwyddo.

- ✓ Pan fydd cyflogwyr yn dechrau gweithredu, mae ymgynghori'n hanfodol er mwyn datblygu unrhyw gynlluniau tymor hir i fod yn ddiwastraff a symud tuag at fodel cylchol o ran rheoli adnoddau. Bydd cwmpas a chyflymder y cynlluniau'n pennu'r goblygiadau uniongyrchol ar berfformiad ac ymddygiad gwaith aelodau – mae'n bwysig hefyd cael briffiau a gwybodaeth am dargedau, uchelgeisiau a llwybrau at newid.

- ✓ Sicrhewch fod manteision arbedion o ran lleihau gwastraff a rheoli adnoddau'n fwy effeithiol yn cael eu rhannu. Dylid ail-fuddsoddi'r arbedion mewn pobl, sgiliau, cadw swyddi a gwella effeithlonrwydd yn barhaus.

- ✓ Os bydd offer neu brosesau newydd yn cael eu cyflwyno, mae'n hanfodol ail-hyfforddi. Hefyd, o ran dangosyddion perfformiad, dylid ystyried ymyrraeth ar waith oherwydd gosodiadau newydd. Yn ogystal â hyn, os bydd prosesau'n cymryd mwy o amser i'w cyflawni, dylid adolygu hyn er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi.

- ✓ Dylid cynnal asesiadau risg newydd lle bo hynny’n briodol, gyda phroses ymgynghori trylwyr sy’n benodol i brosesau gwaith.

- ✓ Dylid asesu pob newid yn llwyr ar gyfer effeithiau ar gydraddoldeb drwy ymgynghori’n drwyadl. Dylid ystyried pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol, ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill o ran cydraddoldeb a thegwch. Dylid gwneud addasiadau lle bo angen.

- ✓ Sicrhewch fod targedau cyflogwyr yn ddigon uchelgeisiol. Er enghraifft, gallai fod nod hirdymor i gyrraedd targed diwastraff erbyn 2050, gyda thargedau lleihau dros dro.